# Partneriaeth Natur Sir Benfro:
# Cylch Gorchwyl

**Bydd Partneriaeth Natur Sir Benfro yn:**
Cydlynu, hyrwyddo a chofnodi camau gweithredu presennol a newydd er mwyn gwarchod, hyrwyddo a gwella natur yn Sir Benfro, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, dyfroedd y glannau a gwely'r môr o gwmpas arfordir Sir Benfro hyd at 12 milltir o'r lan, gan ystyried blaenoriaethau lleol a cenedlaethol a chadw amodau'r cylch gorchwyl a nodir isod. Mae atodiadau un a dau yn egluro strwythur y Bartneriaeth ac yn darparu canllawiau gwaith.

**Diffiniad:**
At ddibenion Partneriaeth Natur Sir Benfro, bydd 'natur' yn golygu'r holl organebau byw a'r systemau ecolegol cymhleth (gan gynnwys elfennau a phrosesau anfyw) y maent yn rhan ohoni. Mae'n cynnwys amrywiaeth o fewn rhywogaethau, rhwng rhywogaethau ac ecosystemau; gwydnwch ecosystemau; y gwasanaethau y maent yn eu darparu i'r gymdeithas a'r modd y mae pobl yn rhyngweithio â natur.

**Cylch Gorchwyl:**
1. Mae'r Bartneriaeth yn olynu Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro (PBSB) ac mae'n ymgymryd â'i asedau fel y nodir yng Nghylch Gorchwyl PNSB (Atodiad 2: canllawiau gwaith, paragraff 6e).
2. Bydd aelodaeth y Bartneriaeth yn cynnwys Cyngor Sir Penfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid[i] sefydliadol allweddol eraill sy'n gyfrifol am gadwraeth a gwella natur yn Sir Benfro. Bydd aelodaeth hefyd ar agor i unigolion[ii] fel fforwm ar gyfer cydweithio a chyfranogi er mwyn helpu i gyflawni camau adfer natur yn effeithiol yn Sir Benfro.
3. Bydd un o'r Partneriaid yn gweithredu fel sefydliad lletyol[iii] a bydd yn gyfrifol am gyflogi unrhyw staff a gweinyddu unrhyw gronfeydd craidd ar ran y Bartneriaeth.
4. Bydd y Partneriaid yn arfer eu swyddogaethau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion pob deddfwriaeth a pholisi perthnasol, e.e. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol (1992), Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981) fel y'i diwygiwyd, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Cynllun Adfer Natur Cymru a Chynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio Cymru.
5. Ni fydd gan y Bartneriaeth unrhyw awdurdod dros unrhyw un o swyddogaethau, dyletswyddau na chyfrifoldebau'r sefydliadau sy'n aelodau o'r Bartneriaeth.
6. Bydd y Bartneriaeth yn cyhoeddi, adolygu a gweithredu cynlluniau lleol ar gyfer cadwraeth a gwella natur yn Sir Benfro. Bydd y cynlluniau hyn yn canolbwyntio ar rywogaethau, cynefinoedd, neu leoedd fel y bo'n briodol a byddant yn adlewyrchu

blaenoriaethau a dyheadau lleol yng nghyd-destun blaenoriaethau polisi cenedlaethol a strategol.

7. Mae gan bob partner rym ar y cyd a chyfartal i sefydlu a gweithredu camau er mwyn cyflawni nodau'r cynlluniau hyn mewn partneriaeth â'r partneriaid eraill.
8. Bydd materion arferol fel cymeradwyo cynlluniau newydd neu ddiwygiedig, materion cyllido a chyfeiriad gwaith unrhyw berson a gyflogir yn cael eu dirprwyo i grŵp Llywio o'r aelodau sefydliadol allweddol sy’n cynnwys Cyngor Sir Penfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyfoeth Naturiol Cymru ac o leiaf un sefydliad anllywodraethol.
9. Bydd y Bartneriaeth yn sicrhau bod cyfranogiad eang i ddatblygu a gweithredu gwaith Partneriaeth Natur Sir Benfro trwy gyflogi swyddog i:
    i. Adolygu a datblygu'r cynlluniau lleol, gan ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau perthnasol o fewn y Bartneriaeth a sicrhau yr ymgynghorir â'r Bartneriaeth yn llawn cyn cyhoeddi cynlluniau newydd neu gynlluniau diwygiedig.
    ii. Cefnogi ac annog grwpiau gweithredu newydd a rhai sy'n bodoli eisoes i fynd ymlaen â’r gwaith o weithredu'r camau a nodwyd yn y cynlluniau.
    iii. Lledaenu gwybodaeth berthnasol i bartneriaid a'r cyhoedd fel sy'n briodol.
    iv. Codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â chadwraeth natur trwy raglen o ddigwyddiadau, gwefan, cylchlythyr a’r cyfryngau cymdeithasol.
10. Bydd y Grŵp Llywio yn cwrdd yn ôl yr angen, pan fo angen, a hynny dim llai nag unwaith y flwyddyn.
11. Bydd cyfle i'r Bartneriaeth lawn gyfarfod fel y gwêl y Grŵp Llywio’n dda (unwaith y flwyddyn fel arfer fel y mae’r adnoddau’n caniatáu).

---

[i] Mae partneriaid allweddol yn cynnwys sefydliadau sydd â dyletswydd statudol o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau; y rhai hynny a restrir yn Neddf Llesiant Dyfodol Cenedlaethau (Cymru) 2015; a'r rhai sydd â’u dibenion sylfaenol yn cynnwys elfen o waith cadwraeth natur. Bydd logo’r sefydliadau hyn yn cael ei arddangos ar y rhestr o aelodau a bydd ganddynt hawl i bleidleisio ar faterion nad ydynt wedi'u dirprwyo i'r Grŵp Llywio, ar yr amod eu bod yn cofrestru ac yn cadw amodau’r Cylch Gorchwyl hyn.

[ii] Bydd croeso i unigolion sydd yn barod i rannu sgiliau, amser neu arbenigedd er mwyn hyrwyddo a gwella natur yn Sir Benfro gyfrannu at waith y Bartneriaeth. Gallant fynychu cyfarfodydd llawn y Bartneriaeth neu ymuno â grwpiau gorchwyl a gorffen fel y bo'n briodol. Ni ddisgwylir iddynt arwyddo’r Cylch Gorchwyl hwn.

[iii] Cyngor Sir Penfro yw'r sefydliad lletyol ar hyn o bryd.